
# Y PAPUR GWYRDD

► Llygredd y môr yn peryglu'r Ddaear
► Creu arian lleol i ffrwyno'r 'Global'
► Y BBC yn holi sut i sôn am y bygythiad i'r byd ...



## Pa mor Wyrdd yw'r Cynulliad ?

Y cylchgrawn sy'n ymgyrchu dros barch at ein Daear


Y PAPUR GWYRDD
Rhif 5
Ebrill / Mai
2008

PRIS: £1
ISSN 1755-3504

**Y PAPUR GWYRDD**
Golygydd: Hywel Davies

217 Vicarage Road,
Treforys, Abertawe
SA6 6DX
Ffôn: 01792 798162
Ebost:
ypapurgwyrdd1@btinternet.com
Gwefan: www.ypapurgwyrdd.com

Cyhoeddir yn ddeufisol gan Y Papur Gwyrdd Cyf.

**YN ÔL sawl datganiad, mae tonnau Gwyrdd yn golchi'n hapus bellach ar nifer o'n sefydliadau cenedlaethol pwysig: S4C yn cyhoeddi blwyddyn amgylcheddol (gan gynnwys rhaglenni natur), y BBC yn penodi gohebydd amgylcheddol, Eisteddfod Caerdydd yn dweud mai nhw fydd y Wyrddaf erioed, a Chynhadledd Gymraeg ar yr Amgylchedd i'w chynnal yn Llandrindod.**

**Da iawn bod y gwynt yn chwythu i'r cyfeiriad iawn o'r diwedd.**

**Gobeithio na fydd yn chwythu hefyd o Safle Glo Brig Ffos y Frân ym Merthyr Tudful, gan mai cymylau o lwch ddaw oddi yno a thanwydd i greu $CO_2$ i dwymo'r Ddaear.**

**Rhaid i'n gwleidyddion ddeall bod y safle'n *cause célèbre* rhyngwladol ac mae eu hymdrechion i atal ei lygredd fydd yn mesur ymroddiad Cymru i Achub y Byd.**

# CYNNWYS

**3** **Gorllewin Cymru yn ystyried arian lleol i wrthsefyll effaith globaleiddio**

**4** Golygyddol: Y Wasg yn methu dangos pa mor ddifrifol yw'r bygythiad i'r Ddaear



**5** **Pa mor Wyrdd yw'r Cynulliad Cenedlaethol? - Haf Elgar**



**6** 6 biliwn o bobl! Sut yn y Byd? – Sion Jobbins



**7** **Llygredd môr yn peryglu holl ddyfodol y Ddaear – Tegwyn Harris**



**8** Rhoi'r Gymraeg ynghanol ymgyrch gwarchod yr amgylchedd — Dafydd Watkin

**9** Ydyn ni'n rhy barod i wawdio pobl 'gyntefig'? – Charlotte Davies



**10** **Daear-iadur Y Papur Gwyrdd — beth sy'n digwydd i warchod y Byd?**

**HYSBYSEBION**
**Tud. 11: Cynhadledd Amgylchedd**
**Cefn: Matresi Organig Abaca**

**Argreffir Y Papur Gwyrdd yn lleol ar bapur o goedwigoedd cynaliadwy cofrestredig gan Wasg Morgannwg, Uned 27, Parc Busnes Mynachlog Nedd, Castell-nedd, SA10 7DR**

# ENNILL A CHOLLI YM MRWYDR Y DDAEAR : Crynodeb 2 fis

## PROTEST GWRTH HEDFAN

BU aelodau Plane Stupid a Greenpeace yn brysur yn protestio yn erbyn y niwed fydd yn cael ei achosi i'r Ddaear gan y diwydiant hedfan, yn arbennig am gynlluniau Heathrow …

AETH ymgyrchwyr Plane Stupid i San Steffan yn niwedd Chwefror gan osgoi swyddogion diogelwch a chyrraedd tô'r adeilad. Yno cynhaliwyd protest yn erbyn y cynllun i adeiladu 3edd lanfa ym Maes Awyr Heathrow.

YR UN wythnos, llwyddodd aelodau Greenpeace i ddringo ar awyren yn Heathrow gan gynnal eu gwrthdystiad hwythau yn erbyn ehangu Heathrow.

## DIFROD Y MÔR

DANGOSODD adroddiad gan wyddonwyr Undeb Cadwraeth y Byd (IUCN) bod dros hanner riffs coral Môr y Caribi wedi'u difrodi yn ystod 2005 gan foroedd cynhesach a chorwyntoedd. Y flwyddyn 2005 oedd y flwyddyn gynhesaf ar gyfartaledd ers i recordiau gychwyn a chafwyd mwy o gorwyntoedd yn ystod y tymor nag erioed o'r blaen.

## DIM TANAU NWY PATIO

PENDERFYNNODD Senedd Ewrop o fwyafrif llethol i atal y defnydd o wresogyddion patio nwy. Clywyd bod un gwresogydd nwy o'r math yma yn gollwng mwy o $CO_2$ i'r awyr mewn blwyddyn na char teuluol cyffredin. Cafwyd 592 o bleidleisiau o blaid y cynnig, a dim ond 26 yn erbyn – sef aelodau'r *UK Independence Party*. Eu dadl nhw oedd y byddai'r ataliad yn niweidio *'cafe culture'* (dim ots am y byd, mae'n debyg!).

## CYMRU ADNEWYDDOL

GWEINIDOG Amgylchedd Cymru, Jane Davidson, yn cyhoeddi mai nod Llywodraeth Cymru Un yw Cymru Ynni Adnewyddol erbyn 2025 — gwynt, llanw a cherrynt y môr (tud. 2).

…. OND GWEINIDOG Busnes San Steffan John Hutton yn datgan y bydd tanwyddau ffosil Glo ac Olew yn ganolog i gynhyrchu trydan ynni am flynyddoedd. Mae ofnau y rhoddir caniatad i'r pwerdy glo newydd cyntaf yn Lloegr ers 25 mlynedd yn Kingsnorton gan ddryllio targedau $CO_2$.

## CYFLWYNO CAIS LAMAS

CYFLWYNODD menter gydweithredol Lamas gais newydd sbon i Gyngor Sir Benfro ar Fawrth 11 yn gofyn am ganiatad i adeiladu ecobentref, effaith isel, ger Glandwr, Crymych. Gwrthodwyd eu cais cyntaf yn Hydref y llynedd. Mae'r cais newydd i'w weld ar lein ar wefan www.lammas.org.uk, ac mae'r hanes yn **Y Papur Gwyrdd**, Chwefror/Mawrth 2008, tud 3. Byddai'r pentref yn cynnwys tai pren, tai pridd, a thai byrnau gwellt a dim trydan canolog o gwbl.

## ARLLWYS DŴR POTEL

MAE Llywodraeth San Steffan wedi cyhoeddi mai dim ond dŵr tap fydd ar gael yn ystod cyfarfodydd o hyn ymlaen – dim dŵr potel. Defnyddiodd Adran yr Amgylchedd yn unig 12,600 o boteli dŵr yn ystod 2006. Cafwyd croeso eang i'r arbediad plastig a ddaw o'r penderfyniad.

## TRAWSNEWID BRO DDYFI

CAFODD ardal Bro Ddyfi ei chroesawu fel yr ail yng Nghymru i ddod yn ganolfan swyddogol ar gyfer gweithgarwch mudiad Trefi Trawsnewid. Yn seiliedig ar ardal Cymunedau yn Gyntaf, mae Trefi Trawsnewid Bro Ddyfi yn cynnwys y rhan honno o Bowys sydd yn Nyffryn Dyfi, sef wardiau Machynlleth, Cadfarch, Llanbrynmair a Glantwymyn.

## GWYRDDION LLWYD

MAE Greenpeace Awstralia wedi creu rhwydwaith o bobl hŷn i weithio dros bolisiau gwarchod y Ddaear – Cymuned y Pŵer Llwyd. Pobl hŷn sy'n diodde' mwya' o effeithiau Newid Hinsawdd fel tywydd poethach a sychach. Bydd y gymuned, felly, yn pwyso ar wleidyddion am fesurau cwtogi ar $CO_2$ i leihau twymo byd-eang.

## Trefi'r porthmyn i ddilyn patrwm Banc yr Eidion Du?



Arian lleol Berkshares ym Massachusetts: esiampl i gymunedau gorllewin Cymru?

# Creu arian lleol i daro 'nôl yn erbyn y 'Global'

**MAE cynlluniau ar y gweill yng ngorllewin Cymru i ddilyn esiampl hen Fanc yr Eidion Du yn Llanymddyfri trwy greu math o arian lleol i gryfhau economïau Llanymddyfri, Llanbedr Pont Steffan a Llandeilo yn erbyn grym yr archfarchnadoedd.**

Dywedodd Rhiannon Rowley o fudiad Trefi Trawsnewid - sy'n paratoi ar gyfer byd heb olew - y byddai 'Punt y Porthmyn' yn adlewyrchu gwaith arloesol David Jones a sefydlodd gyfundrefn ariannol i borthmyn Cymru trwy Fanc yr Eidion Du ym 1799.

Mae'r trafodaethau yn rhan o baratoadau mudiad Trefi Trawsnewid ar gyfer byd heb olew.

Mae aelodau'r mudiad mewn nifer cynyddol o drefi yn mynd ati i ail greu patrymau byw lleol, cynaliadwy a syml yn wyneb y tebygrwydd na fydd systemau masnachu *'global'* yn parhau.

Mae'r mudiad a gychwynwyd yn Iwerddon bellach yn tyfu'n gyflym yn Llanbedr Pont Steffan fel y gwnaeth eisoes yn Llandeilo. A Llambed sy'n arwain y gwaith i baratoi lansio'r arian newydd.

Ynghanol y gwaith mae'r cynhyrchydd llysiau organig Peter Seger o Flaen Camel, Cilcennin: "Byddai creu arian lleol yn rhoi hwb i'r economi leol oherwydd am bob £1 sy'n cael ei gwario gyda busnesau lleol mae 'na gyfraniad o ryw £2 i'r economi leol, tra bod gwario £1 d'wedwch yn Tesco yn gadael ond 70c yn lleol."

Esiampl fwy diweddar i Bunt y Porthmyn ei dilyn yw arian Berkshares a sefydlwyd ym 2006 yn Berkshire County, Massachusetts, yr Unol Daleithiau, i helpu busnesau lleol dal eu tir yn erbyn cryfder y cadwyni mawr megis Wal-Mart a K Mart.

Bellach mae gwerth tua miliwn o ddoleri o arian Berkshares yn cylchdroi ac yn ennyn llawer iawn o falchder ymysg pobl leol – ac elw a ffyddlondeb i siopau a busnesau lleol.

Cymaint fu'r llwyddiant nes iddo ysbrydoli mudiad Trefi Trawsnewid Totnes yn Nyfnaint, Lloegr, i greu'r Totnes Pound tua blwyddyn yn ôl ac mae 10,000 o'r 'punnoedd' hynny bellach yn cael eu defnyddio.

Meddai Peter Seger, "O'r holl syniadau gan bwyllgorau mudiad Trefi Trawsnewid Llanbedr Pont Steffan, y syniad o fathu arian lleol i gynnal busnesau lleol yw'r un sydd wedi derbyn y croeso mwya' gan y Cymro a'r Gymraes Gymraeg gyffredin yn y stryd."

Y gobaith yw y bydd Punnoedd y Porthmyn ar gael ymhen rhyw 6 mis.

Yna, bydd pobl leol, a phobl o'r tu allan sydd am gefnogi'r gymuned, yn cael prynu Punnoedd y Porthmyn ac yn cael eu defnyddio mewn busnesau lleol ar gyfradd fanteisiol o gymharu â'r Bunt Seisnig.

Byddai hyn yn creu mantais i'r cwsmer, ffyddlondeb i'r busnesau lleol, ac elw i'r gymuned yn lle i gorfforaethau mawreddog, estron, sydd a dim ond y *'bottom line'* yn bwysig iddynt.

Y gobaith yn y pendraw yw creu arian lleol Punt y Porthmyn yn Llambed, Llandeilo a Llanymddyfri - y tair tref lle sefydlwyd canghennau o hen Fanc yr Eidion Du gan dri mab y sylfaenydd, David Jones.

## ELW NEU DDYFODOL?

DATGANIAD od gan un o weinidogion Swyddfa Gymreig San Steffan, Huw Irranca-Davies. Dywedodd e wrth benaethiaid CBI Cymru na fydd Llywodraeth y DU yn caniatau i fesurau cwtogi carbon achosi anhawster i fyd busnes. Beth felly yw'r *bottom line* i Whitehall? – Gwarchod y Ddaear er mwyn ein plant? Neu amddiffyn elw byd busnes?

## Gwynt teg i ynni adnewyddol



**CROESAWYD cyhoeddiad Jane Davidson, Gweinidog Amgylcheddol Cymru, mai nod Llywodraeth Cymru Un yw creu'r cyfan o drydan Cymru o ffynonellau adnewyddol erbyn 2025 fel rhan o'n cyfraniad at frwydr y Ddaear i gwtogi ar nwyon Tŷ Gwydr.**

**Dywedodd Gordon James, Pennaeth Cyfeillion y Ddaear Cymru ei fod yn llongyfarch y Gweinidog ar gefnogi twrbeini gwynt yn erbyn beirniadaeth anwybodus.**

**Esboniodd Ms Davidson y gallai hanner trydan Cymru ddod o bwerdai yn y môr, trydydd rhan o dwrbeini gwynt ar fôr a thir, a'r gweddill o biomas a chynhyrchwyr bach adnewyddol eraill.**

► *Ond dyma ryfedd o gyd-ddigwyddiad: mae Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol wedi rhoi caniatâd i safle glo brig mwyaf Prydain, sef Ffos y Frân ar gyrion Merthyr Tudful, gloddio am lo am 17 mlynedd - sef tan 2025!*

*Yn y cyfamser, bydd y safle wedi golygu rhyddhau 30 miliwn tunnell o $CO_2$ i'r awyr gan achosi twymo byd eang. Nawr yw'r amser i atal $CO_2$ Ffos y Frân, nid 2025 (gweler Protest, tudalen 10)*

> Does dim gobaith dianc: rhaid cwtogi ar ddefnydd ynni os ydym i oroesi ar y blaned hon. Does dim pwynt gofyn i gwmniau ceir wneud eu ceir tipyn bach yn fwy ynni-effeithiol os bydd nifer y ceir yn dyblu.
>
> *Henk Hobbelink, mudiad GRAIN (Resurgence Rhif 247)*

GOLYGYDDOL

# Methiant y BBC (a'r lleill) wrth ddangos y perygl i'r byd a'i bobl



**DATGELODD pôl piniwn y llynedd fod 57% o bobl gwledydd Prydain yn credu bod Newid Hinsawdd, a chyfraniad nwy $CO_2$ at godiad tymheredd, yn dal yn fater o ddadlau rhwng gwyddonwyr.**

Roedd y ffaith bod cymaint o bobl heb ddeall bod mwyafrif helaeth gwyddonwyr yn rhybuddio'n daer ynglŷn â pheryglon Newid Hinsawdd, ac yn gweld $CO_2$ fel un o'r prif achosion, yn awgrymu bod y cyfryngau wedi methu ag adlewyrchu'r gwir ofnau am ddyfodol y Ddaear.

Dibynna unrhyw obaith am newyddiaduraeth sy'n egluro'r gwir fygythiad i'n ffordd o fyw ar newyddiadurwyr sy'n deall maint y bygythiad hwnnw eu hunain. Ond yr ofn yw bod gormod yn dal i gredu mai tipyn o jôc, ac obsesiwn anoracaidd, yw'r holl sôn am bethau Gwyrdd.

## METHIANT Y WASG

Mae hynny'n golygu bod y wasg a'r cyfryngau wedi methu'n lân ag egluro maint y niwed mae dynoliaeth yn achosi i systemau naturiol y Ddaear, a pha mor uchel fydd y pris oherwydd bywydau afradlon ein cenhedlaeth ni.

O ran teledu, un o'r methiannau mwyaf *spectacular* oedd darlledu *The Great Global Warming Swindle* gan Channel Four ac S4C y llynedd. Dywedodd y gwyddonydd hinsawdd blaenllaw o Gymru, Syr John Houghton, mai dyna oedd y rhaglen wyddonol salaf y gwyddai amdani.

Bellach, mae S4C wedi cyhoeddi eu bod nhw'n Wyrdd ac yn bwriadu ceisio gwneud yn iawn am y rhaglen gamarweiniol honno trwy gomisiynu rhaglen Gymraeg ar yr amgylchedd gan BBC Cymru.

Gobeithio y bydd cynhyrchwyr y rhaglen honno'n talu sylw i'r drafodaeth gyfredol yng nghoridorau'r Gorfforaeth ynglŷn â sut y dylid adrodd straeon am yr amgylchedd.

Mae erthygl yn **Aerial**, cylchgrawn mewnol y BBC, yn dweud bod rhaid addasu egwyddor 'cydbwysedd' newyddiadurol er mwyn adlewyrchu gwir gryfder y farn ymhlith trwch gwyddonwyr hinsawdd ac amgylchedd y byd.

Mae Richard Black, Gohebydd Amgylcheddol Gwefan y BBC, a Roger Harrabin, Dadansoddwr Amgylcheddol Newyddion y BBC, yn cynnig canllawiau ar sut i gyflwyno adroddiadau ar yr amgylchedd.

Maen nhw'n datgan mai'r corff sydd angen talu sylw iddo yw Panel Rhyng Lywodraethol y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd (yr IPCC). Dyma'r corff sy'n casglu ymchwil gan arbenigwyr Newid Hinsawdd wedi'i hasesu gan wyddonwyr eraill ac wedi'i chyhoeddi mewn cylchgronau gwyddonol o'r radd flaenaf.

Ac mae'r IPCC wedi datgan ei bod y tu hwnt i amheuaeth bod yr hinsawdd yn cynhesu a'u bod fel corff yn fwy na 90% yn sicr mai gweithgarwch dynol sy'n achosi'r rhan fwyaf o'r newidiau hinsawdd mwya' diweddar.

Dywedodd Black a Harrabin: "Mewn arolwg o 140 o wyddonwyr hinsawdd, credai 18% bod yr IPCC yn codi bwganod ond credai 82% un ai bod yr IPCC yn cynrychioli consensws rhesymol – neu nad oedd yn codi digon o fraw arnom.

"Mae'r cyfan o brif gyrff gwyddonol y byd wedi cadarnhau pryderon yr IPCC ynglŷn â'r risg a olygir gan gynnydd mewn nwyon tŷ gwydr."

Meddai Black a Harrabin nad oes angen i newyddiadurwyr y BBC greu *'balance'* wrth gyflwyno adroddiadau o'r IPCC am Newid Hinsawdd gan mai consensws rhwng gwyddonwyr arbenigol yw eu rhybuddion.

Ond maen nhw'n dadlau bod angen cadw cydbwysedd wrth adrodd o dro i dro ar safbwyntiau sydd ar y ddwy ochr i farn yr IPCC – sef y rhai sy'n gwadu twymo byd eang a chyfraniad $CO_2$, a'r rhai hynny sy'n rhybuddio bod y peryglon yn waeth o lawer nag sy'n cael ei fynegi gan yr IPCC.

## NAID TYMHEREDD

Maen nhw'n dweud, hefyd, y dylai newyddiadurwyr y BBC egluro i'r gynulleidfa pwy yn gwmws yw'r bobl sy'n mynegi'r safbwyntiau lleiafrifol.

**Yn eu herthygl, mae Black a Harrabin yn nodi bod 17% o wyddonwyr yn credu nad yw rhybuddion yr IPCC yn ddigon cryf.**

Yn eu mysg mae'r cawr o wyddonydd amgylcheddol James Lovelock. Mae Lovelock yn dadlau nad yn raddol y bydd tymheredd y Ddaear yn codi, fel mae'r IPCC yn awgrymu, ond gyda naid sydyn o 6 gradd C mewn mater o ddegawdau.

Byddai hynny, meddai, yn gatastroffig i systemau naturiol y Ddaear na fyddai bellach yn gallu cynnal mwy na 1 biliwn o bobl. Mae dros 6 biliwn ohonom ar hyn o bryd.

Yn wyneb y drafodaeth uchod ar ran y cyfryngau, edrychwn ymlaen gyda diddordeb arbennig at raglen amgylcheddol BBC Cymru ar S4C.

**HYWEL DAVIES**

# Ffolineb cynlluniau'r corfforaethau glo

**Y CYNLLUN peryglus sydd gan y corfforaethau glo anferth i gyfiawnhau ei slogan PR 'Glo Glân' yw cymryd y nwy $CO_2$ allan ohono a'i wasgu dan bwysedd fel hylif i grombil y ddaear, neu i waelod y môr, mewn niferoedd diri o fannau storio, ledled y byd - am byth! *[Sef CCS - Carbon Capture and Sequestration.]***

**Mae'r wefan Americanaidd, Rachel's Democracy and Health News, yn rhybuddio y byddai'n ffolineb o'r mwyaf inni ddilyn cynlluniau diwydiant sy'n gosod elw yn uwch na phob dim arall. Dyma rai o'u cwestiynau:**

► *Oes gan y diwydiannau glo ac ynni record y gellid ei barchu o ddilyn cyfreithiau mwyngloddio, cyfreithiau adfer tir, rheoliadau iechyd a diogelwch, a rheoliadau amgylcheddol?*

*Os edrychwn ar gymunedau sydd wedi cael eu dominyddu gan y diwydiannau hyn, pa fath o gymunedau ydyn ni'n gweld sydd yno bellach?*

*Ar ôl i'r glofeydd gau a'r corfforaethau symud ymlaen, pa fath o etifeddiaeth ydyn nhw wedi'i gadael? Mae 'na record hanesyddol yma y gellir ei astudio i ddweud wrthym pa fath o bobl fydd yn delio gyda diwydiant claddu $CO_2$.*

*Ydyn ni'n gallu ymddiried ynddyn nhw? Pe byddech chi'n dewis grŵp o bobl i warchod dyfodol yr hil ddynol, ai dyma'r bobl y byddwch yn eu hethol?* ■

**I unrhyw un sy'n dadlau bod diwydiant glo Prydain yn llawer mwy cyfrifol na diwydiant glo America, mae gennym ninnau yng Nghymru un gair arswydus o ateb: Aberfan.**

**Er diogelwch pobl, ac iechyd y Ddaear i'r oesoedd a ddêl, rhaid gadael y glo dan ddaear ymhob man (ie, gan gynnwys yng Nghymru) a throi ar frys at ynni adnewyddol amrywiol, ac at ffyrdd o gwtogi sylweddol ar ddefnydd ynni.**

***► Am fwy o wybodaeth, trowch at: www.rachel.org — gwefan wedi'i enwi er cof am Rachel Carson, awdur y llyfr Silent Spring a ddatgelodd effaith drasig cemegau'r diwydiant amaeth/garddio ar fyd natur a phobl ym 1962.***

HAF ELGAR YN HOLI PA MOR WYRDD YW'R CYNULLIAD CENEDLAETHOL ...

# A fydd Llywodraeth Cymru Un yn dal yn gadarn at bolisiau i atal dinistrio'r Ddaear?



**PAN sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru y bwriad oedd nid yn unig rhoi haen o reolaeth democrataidd i Gymru ond dangos bod modd gwneud pethau'n wahanol a chael polisiau addas i Gymru.**

Mae Cyfeillion y Ddaear hefyd yn edrych ar i'r llywodraethau datganoledig arwain y ffordd o ran newid hinsawdd, egni, gwastraff a thrafnidiaeth.

Ein gobaith yw bod Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn arloesi a gosod her i lywodraeth Prydain newid ei ffordd.



Haf Elgar, Cyfeillion y Ddaear

Fe welwyd hyn yn gynnar yn hanes y Cynulliad gyda dyletswydd cyfreithiol tuag at ddatblygu cynaliadwy, ymrwymiad cynnar i gadw Cymru yn ddi-GM a gwrth-wynebiad y Cynulliad i orsafoedd niwclear.

Erbyn hyn mae Llywodaeth Cymru'n Un a'r trydydd Cynulliad wedi cael digon o amser i setlo ac mae'n bryd asesu pa mor wyrdd ydy'r Cynulliad mewn gwirionedd?

**Mae modd rhestri nifer o ddatblygiadau positif sydd wedi deillio o Gymru'n Un:**

Am y tro cyntaf mae Gweinidog sy'n canolbwyntio'n llwyr ar Gynaliadwyedd gyda ni ac mae'r Comisiwn Newid Hinsawdd eisoes wedi cwrdd am y tro cyntaf.

Mae dogfenni wedi'u cyhoeddi ar 'glustogi' glo brig — sef mynnu bwlch o 500 medr rhwng y safleoedd a thai — ac ar drywydd ynni adnewyddol i Gymru.

Mae'r pwyllgor archwilio ar gynaliadwyedd yn llwyddo croesholi Gweinidogion ac arbenigwyr eraill, gan ffocysu ei waith ar yr ymchwiliad lleihau carbon.

Yn gyffredinol, mae pwerau newydd y Cynulliad yn rhoi mwy o bosibiliadau i drafod yr amgylchedd, ac adeilad y Senedd ei hun yn atgof parhaol o bosibiliadau cynaliadwyedd.

Ar y llaw arall mae nifer o broblemau o'n blaenau.

Dim ond pedair gwaith y flwyddyn mae disgwyl i'r Comisiwn Newid Hinsawdd gwrdd ac mae perygl y gall fod yn siop siarad.

Mae diffyg pwerau'r Cynulliad yn amlygu ei hun yn reolaidd.

Sut gallwn dorri allyriadau carbon Cymru gyda diwydiant trwm yn gyfrifol am gymaint ohono a dim pwer yn y maes yma?

**Sut gallwn gynllunio dyfodol ein gwlad os taw corff anetholedig Prydeinig fydd yn penderfynu ar brosiectau cynllunio mawr?**

Ac nid yw pethau'n argoeli'n dda yn y meysydd lle mae pwerau gan Lywodraeth y Cynulliad.

Os adeiladir Morglawdd Hafren a'r draffordd dros lefelau Gwent fe fydd y ddau brosiect yma yn tanseilio a di-brisio unrhyw eiriau da eraill a ddaw o'r Llywodraeth.

A beth am rôl y pleidiau yn y Cynulliad?

Ar ran y Democratiaid Rhyddfrydol mae Mick Bates yn rhoi arweiniad cryf fel Cadeirydd y Pwyllgor Cynaliadwyedd, yn fodlon gosod agenda blaengar a gofyn cwestiynnau caled i'r Llywodraeth. Y mae hefyd yn arwain y Grŵp Trawsbleidiol ar Egni Cynaliadwy (NASEG).

Ar y llaw arall mae'r Democratiaid Rhyddfrydol ar lefel leol wedi gwrthwynebu cynlluniau ynni gwynt ar dir ac ar y môr ac mae'n bryd iddynt sylweddoli na allant fod yn blaid 'werdd' yn genedlaethol ond NIMBYs yn lleol.

Mae'r Ceidwadwyr yn gweithio'n dda yn y Pwyllgor Cynaliadwyedd a Darren Miller hyd yn oed yn siarad o blaid datganoli pwerau pellach pan fo angen, er enghraifft ym maes cynllunio.

Ond yn y siambr lawn yr un hen Doriaid ydyn nhw, fel y clywsom yn y ddadl ddiweddar ar y Trywydd Ynni Adnewyddol gydag Alun Cairns yn holi pam nad oedd ynni niwclear yn cael ei ystyried a thri Ceidwadwr yn areithio yn erbyn ynni gwynt.

*A beth am bleidiau Cymru'n Un?*


Mae Plaid Cymru yn cyfarwyddo'n hynod o hawdd gyda bod mewn llywodraeth ac mae Leanne Wood yn arbennig yn fodlon bod yn lais cryf ac annibynnol ar brydiau.

Y prawf fydd a fyddant yn cadw at eu hegwyddorion, a'u polisiau cyn dod i bwer, neu a fydd yna alwad o frad pan ddaw'n benderfyniad ar adeiladu traffordd newydd dros lefelau Gwent, er enghraifft.



Jane Davidson: all hi gario'r Cabinet?

Mae portfolio trafnidiaeth a datblygu economaidd **Ieuan Wyn Jones** yn y Cabinet yn un allweddol a hyd yma nid ydym wedi gweld pwyslais ar yr amgylchedd o gwbl.



Mick Bates: wyneb gwyrdd y LibDems

Mae gan Lafur Weinidog cryf ac effeithiol yn **Jane Davidson** sy'n gweithio'n galed i wneud gwahaniaeth.



Leanne Wood: llais annibynnol yn y Blaid

Y cwestiwn yw a all hi gario'r Cabinet gyda hi, ac a fyddant yn fodlon gwireddu'r economi carbon isel pan fo'n benderfyniad economaidd neu ar swyddi?



Alun Cairns: Niwclear, os gwelwch yn dda!

Ar hyn o bryd mae ewyllys da yn y Cynulliad tuag at wella amgylchedd Cymru a chymryd cyfrifoldeb Cymru at newid hinsawdd o ddifri.

Ond mae'n rhaid profi nad ffasiwn dros dro yw cefnogi'r amgylchedd.

**Mae'r prawf eto i ddod a ydy llywodraeth y Cynulliad yn fodlon blaenoriaethu'r amgylchedd a gweithredu ar eu rhethreg gwyrdd.**

# Rhaid rheoli twf poblogaeth os ydym am adfer ein hamgylchedd planedol

**Mae cyfres newydd o raglenni amgylcheddol yn trafod dyfodol y blaned wedi cychwyn ar S4C ond pryd welsoch chi erioed un rhaglen deledu yn trafod demograffeg a dyfodol y blaned yn yr un modd?**



Gan SION JOBBINS

Wedi'i eni yn Zambia a'i fagu yng Nghaerdydd, mae Sion yn brif lefarydd cais dotCYM

Gyda 6.7 biliwn o bobl yn byw yn y byd heddiw, cynnydd o'r 2.5 biliwn ym 1950, onid y twf anhygoel ym mhoblogaeth y byd yw'r bygythiad fwyaf i ddyfodol y ddaear?

Term cymharol iawn yw 'gorboblogi' wrth gwrs. Ond wrth i'r Trydydd Byd fanteisio ar nifer o ddatblygiadau meddygol ac amaethyddol a fraenarwyd yn y Gorllewin — datblygiadau sydd wedi arwain at dwf poblogaeth anferth i wlad fel Nigeria o 37 miliwn yn 1961 i ryw 130 miliwn heddiw gyda chyfradd geni o 5 plentyn y fam — oni ddylid gofyn fel hyn:

Petai'r modd wedi bod ar gael ganrif yn ôl gan wledydd y Gorllewin i weld cynnydd yn ein safon byw heb y cynnydd syfrdanol yn ein poblogaeth, a fyddem ni wedi bod yn well o fanteisio arno?

Hynny yw, pwy wrth ddarllen yr erthygl hon, na fyddai wedi bod yn hapus (petai wedi bod yn bosib yn hanesyddol) i weld safon byw uchel heddiw ond bod poblogaeth Cymru dyweder yn ddwy yn hytrach na thair miliwn, neu Brydain yn 35 miliwn yn hytrach na 60 miliwn?

Os ydy'r Gorllewin wedi ei orboblogi yna ai doeth yw aros i boblogaeth y Trydydd byd 'orboblogi' hefyd - ai dyna a olygir gan 'gyfartaledd'? Ers pryd gwnaeth dau ddrwg un da?

Mae gwlad ar ôl gwlad wedi methu neu wedi gwrthod dygymod â her y gyfradd geni.

Methodd Cenia, er enghraifft, ddilyn polisïau ei hun ar leihau nifer ei genedigaethau. Canlyniad hyn yw bod poblogaeth y wlad wedi llamu o 2.9 miliwn i 37 miliwn ers 1928. Cafwyd cynnydd o'r 14 miliwn yn 1975 i 30 miliwn yn 1999 ac mae disgwyl iddo ddyblu eto.

Cofiwch, nid yw'r cynnydd yma ar gefn chwyldro diwydiannol chwaith fel cafwyd yn y Gorllewin - mae GNP Cenia ond $34bn; mae GNP Africa gyfan i'r de o'r Sahara ond yr un peth â Gwlad Belg.

Cafwyd cyfradd geni o 8 plentyn y fam o'r 1950au hyd at ganol yr 1980au ond mae cyfradd geni Cenia yn dal i sefyll ar ganran uchel iawn o ddeutu 5 plentyn y fam. Mae'r gyfradd uchaf yn y Rift Valley - ie, yr union ardal lle welwyd yr helynt gwaethaf wedi'r etholiad diweddar.

Mae poblogaeth Pacistan hefyd wedi ffrwydro o 31 miliwn yn 1947, blwyddyn annibyniaeth, i 132 miliwn yn 1995 a llamu eto o 30 miliwn i 162 miliwn yn 2006 ac mae'r gyfradd geni'n parhau i

PARHAD AR DUDALEN 8


**Wythnos Cymru Daclus 2008**

MAE CADWCH GYMRU'N DACLUS YN GALW AR BOBL CYMRU I LANHAU EU HARDAL LEOL

Bydd **Wythnos Cymru Daclus** yn cymeryd lle rhwng y **23 – 29 o Fe-**

**Os hoffech archebu eich Pecyn Glanhau AM DDIM**

Galwch: 029 2072 6962

Ebostiwch: tww@keepwalestidy.org

Neu ymweld â'r safle we: www.cadwchgymrundaclus.org

RHYBUDD GWYDDONYDD AM BRIS EIN BRYNTNI ...

# Mae llygredd yn lladd y môr — a'r Ddaear gyfan mewn perygl

**Y mae môr-wyddonwyr wedi ymdrechu ers degau o flynyddoedd i rybuddio 'arweinwyr' y byd am y problemau gwyddonol disgwyliedig oherwydd llygru'r môr.**

Hyd yn hyn, yr unig ymateb sylweddol a gaed oedd ymdrechion i lanhau'r traethau a'r môr cyfagos - h.y. y mannau gweledig.

Bellach, ni arllwysir carthffosiaeth dros y traethau ac mae'r pibellau angenrheidiol wedi'u symud ymhell oddiwrth yr arfordir.

Yn anffodus, er mor fuddiol y gwelliannau hyn, nid ydynt ond megis darn o dywod ar ben yr Wyddfa.

Gwaetha'r modd, ym myd gwleidyddion (sef y rhai sydd â'r cyllid a'r awdurdod i weithredu yn eu llaw), claddu pen yn ôl patrwm tybiedig yr estrys yw'r arferiad. Os na welir y llygredd, 'does yna ddim llygredd!

**Ffolineb noeth ydyw hyn.**

Tybiwyd ers canrifoedd mai cawg diwaelod yw'r môr - cawg nas gellir ei lenwi - cawg i dderbyn pob math o sbwriel a gynhyrchir gan yr anifail mwyaf dinistriol ar y blaned - dyn. Yn anffodus, nid cawg diwaelod, nac un diderfyn yw'r môr.

Er i'r moroedd byd-eang orchuddio tua 70% o arwynebedd y byd, i bob pwrpas gweithredol llyn enfawr yw'r môr. Y mae gan bob llyn - yr un bychan mewn gardd fel yr un mawr gerllaw'r Bala - derfynau megis gwaelod ac ymylon.

Petai rhywun yn taflu pob math o lygredd i lyn bychan yr ardd, ymhen ychydig iawn o amser dim ond dŵr drewllyd anffrwythlon a geid ynddo. Dyna'n syml yw'r sefyllfa sy'n wynebu moroedd y byd.



Gan
DR TEGWYN HARRIS
**Cyn brif-ddarlithydd yn Adran Astudiaethau Biolegol Prifysgol Caerwysg. Awdur tri llyfr ac amryw o erthyglau ar fywydeg y môr a darlledwr cyson ar Radio Cymru ar bynciau ecolegol.**

Ffaith arall a anwybyddwyd gan y 'mawrion' ar hyd y blynyddoedd yw hyn: Er bod llawer iawn o ddŵr yn arllwys i'r môr yn rheolaidd a chyson gan gludo lliaws o gemegau naturiol toddedig fel hylif wan, dim ond dŵr - ar ffurf ager - sy'n gadael y môr.

Canlyniad hyn yw cryfhau yn araf, araf, pob un o'r cemegau cynwysedig - dyma'r rheswm, yn syml, pam fod dŵr y môr yn hallt.

Dros filiynau o flynyddoedd mae planhigion ac anifeiliaid y môr wedi esblygu'n ffisiolegol i weithredu mewn cytgord â'r cemegau hyn a, thrwy hynny, wedi llwyddo i greu sustem ecolegol fwyaf, a mwyaf cymhleth, y byd.

Oherwydd cryfder y cemegau (e.e. ceir 3.5% o halen cyffredin - clorid sodiwm - yn y môr, heblaw am y cannoedd o gemegau eraill) cyfrifir y cytgord ffisiolegol, mewn termau biolegol, fel un 'eithafol'.

Golyga hyn, fel sy'n wir ym mhob sefyllfa ecolegol 'eithafol' arall ar wyneb y ddaear, nad oes modd i'r pethau byw weithredu'n llwyddiannus ond o fewn telerau cyfyng iawn.

Beth, felly, sydd o'i le ar gyfundrefn gemegol y môr?

Yn ôl adroddiad gwyddonol a seiliwyd ar wybodaeth fyd-eang ac a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn y cylchgrawn *Science* - popeth!

**Erbyn hyn mae cemegau 'estron' degawdau o lygru drwy golli olew, carthffosiaeth, carthion amaethyddol, gwrteithion cemegol a gwastraff diwydiannol i'r dŵr wedi cynyddu i'r fath raddau fel bod rhai ardaloedd morol yn anabl i gynnal eu sustemau ecolegol.**

Mae hyn yn wybodaeth sy'n ddigon torcalonnus ynddo'i hun - ond, fel y gellid ei ddisgwyl gan unrhyw un sydd â'r mymryn lleiaf o wybodaeth wyddonol am y môr, mae gweithgareddau gwrth-ecolegol eraill, megis gor-bysgota, pysgota gan ddefnyddio technegau a rhwydau dinistriol, cloddio am olew a nwy, a llygru gan longau, hefyd, wedi cyrraedd lefelau

PARHAU AR DUDALEN 8

## YMGYRCH I ADFER Y BLANED

YN wyneb disgrifiadau enbyd fel un y Dr Tegwyn Harris (uchod) am effaith ddinistriol llygredd dynol ar ein Daear, da clywed am waith mudiad amgylcheddol y *World Restoration Service*:

**'EIN gweledigaeth ni yw i bobl y byd ymuno mewn ymgyrch i adfer gallu'r blaned i gynnal bywyd, gan ddilyn datganiad y Cenhedloedd Unedig mai dyma 'Ganrif Adfer y Ddaear'.**

**Mae 'na ddealltwriaeth gynyddol mai'r bygythiad mwyaf i ddiogelwch y byd yw'r lleihad yng ngallu'r Ddaear i gynnal bywyd, wedi'i achosi gan gynhesu byd eang a dinistr ecolegol.**

**Rhaid i wynebu'r bygythiad hwn ddod yn brif achos pryder ac yn fater o frys i bob cenedl.**

**Rhaid cyfeirio mwy o adnoddau at ddadwneud y difrod a achoswyd i elfennau sylfaenol ein parhad — adfer iechyd awyr, dŵr a phridd y Ddaear.**

**Wrth i'r ganrif symud ymlaen, rhaid cychwyn prosiectau cynyddol uchelgeisiol, nid dim ond i leihau gollyngiadau tŷ gwydr, ond i adfer y prif goedwigoedd, glanhau gwastraff gwenwynig, a throi prif ddinasoedd y byd yn wyrdd.'**

►*Am fwy o wybodaeth ewch at: www.earthrestorationservice.org*

# Trafod yr amgylchedd — i gryfhau'r Gymraeg

Gan
DAFYDD WATKIN

**FEL y gwyddom, mae'r iaith Gymraeg yn perthyn i bawb ac felly un o'r ffyrdd y gallwn hybu'r iaith yw annog pobl i deimlo'r hyder i drafod unrhyw beth ynddi.**

O wneud hyn y gallwn sicrhau ei dyfodol fel iaith bob dydd.

Mae digonedd o bobl yn dysgu'r iaith o'r newydd erbyn hyn ac oni fyddai'n ardderchog pe gwelid niferoedd o bobl yn dysgu'r iaith Gymraeg gan ddefnyddio termau amgylcheddol yn naturiol.

Rhaid i ddysgwyr newydd gael y cyfle o ddefnyddio'r iaith Gymraeg mewn sefyllfa fodern a pha ffyrdd gwell o wneud hyn na thrwy drafod pethau megis arbed ynni a phethau tebyg mewn modd naturiol.

*Ein gwaith ni yw dangos i bobl pa mor hawdd yw trafod pethau yn y Gymraeg. O wneud hyn gwelir cynnydd yn ein hyder fel Cymry ac fel canlyniad byddai'r defnydd o'r Gymraeg yn cael ei normaleiddio.*

Nid ffrae rhwng yr iaith a'r amgylchedd mo hyn. Nid yw'n bosibl eu gwahanu oddi wrth ei gilydd.

A thrwy'r Gymraeg y cawn ni'r cyfle o ymestyn ein profiad amgylcheddol gan ddefnyddio iaith syml a diffwdan yn ein sgyrsiau o ddydd i ddydd.

<u>Rhaid pwysleisio pa mor bwysig yw defnyddio Cymraeg syml. Cawn yr argraff yn aml iawn mai rhywbeth ar gyfer y dysgedig rhai yw materion megis newid hinsawdd.</u>

Dim o bell ffordd.

Dylai pawb gael y fraint i fynegi eu teimladau a'u syniadau am yr amgylchedd gan ddefnyddio iaith syml ac anffurfiol. Safwn gyda'n gilydd, **nid** i frwydro yn erbyn ein gilydd, **ond** i weithio gyda'n gilydd, yn Gymry Cymraeg ac yn ddysgwyr **ar y cyd**.

Yn y modd yma gallwn fagu hyder i drafod materion sy'n bwysig inni gyd, a beth sydd bwysicach inni na'r frwydr dros ein planed a dyfodol ein plant?

Mae materion amgylcheddol wedi dod yn bwysicach i bawb erbyn hyn. Nawr yw'r amser i weithredu i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio yn y maes hwn.

Mae'n siŵr y gellir gwneud hyn mewn nifer o ffyrdd. Efallai y byddai'n syniad da i Gymry Cymraeg ffurfio grwpiau bach i drafod materion amgylcheddol ac felly bydd yn hwb i'n defnydd o'r Gymraeg.

Mae nifer o bosibiliadau eraill o annog pobl i gymryd diddordeb yn yr amgylchedd.

Ond yn gyntaf oll rhaid magu hyder i ddefnyddio'n hiaith i drafod unrhyw beth ac yn sicr byddai trafod materion megis dyfodol ein planed yn un ffordd o sicrhau dyfodol ein hiaith.

**Beth amdani Gymry annwyl?**

# Os bydd i'r môr farw — marw wnaiff y byd i gyd

**PARHAD O DUDALEN 7: Mae Llygredd yn Lladd y Môr, gan Dr Tegwyn Harris...**

hollol ddinistriol ac annerbyniol.

At hyn oll rhaid ategu pethau fel cynhesu'r amgylchedd a chynnydd o'r pelydrau uwch-las sy'n taro arwynebedd y byd.

Canlyniadau hyn oll, wrth gwrs, yw niweidio nifer fawr o boblogaethau o bysgod, adar ac o anifeiliaid di-asgwrn-cefn ledled y byd. Y mae dyfodol tomennydd cwrel y byd - y rhai 'enwog' o fewn y trofannau yn ogystal â'r rhai mwy dirgel yn nyfnderoedd rhai o'r moroedd oeraf (ger Norwy, er enghraifft) yn ansicr dros ben.

Heblaw hyn oll, y mae yna broblem arall sy'n wynebu rhai o drigolion hynotaf a phrin y môr, sef y morgrancod. Prif fwyd yr anifeiliaid hyn yw sglefrod-môr - creaduriaid anodd eu llyncu am y rheswm syml eu bod yn sglefriog! I sicrhau nad oes cyfle i'r slefren lithro allan o geg y cranc cyn iddi gyrraedd ei stumog, y mae gan y morgrancod nifer o 'ddraen' yng nghefn y llwnc â'u blaenau pigog yn wynebu tua'r perfedd. Pan lyncir sglefren, mae'r ysglyfaeth byw yn medru llithro'n esmwyth heibio'r pigau ac i'r stumog.

Gwaetha'r modd, mae cwdynau plastig yn nofio yn y dŵr yn hynod o debyg i sglefrod! Wrth i forgranc geisio llyncu cwdyn plastig gan dybio taw sglefren sydd ganddo yn ei geg, mae'r pigau gwarchodol yn y llwnc yn glynu yn y plastig a'r canlyniad fydd tagu'r cranc.

Mae adroddiad diweddar yn sôn am erwau o gwdynau plastig ar hyd gwaelod rhan o'r Môr Tawel.

<u>Beth, felly, sydd i'w wneud i wella'r sefyllfa?</u>

Yn anffodus, mae rhai o'r trychinebau eisoes wedi datblygu allan o gyrraedd cymorth a gwelliant.

Yn y dyfodol, os ceir cydweithrediad gan holl wledydd y byd, gellir lleihau llygredd cemegol a materol - a thrwy gyfrwng gwyliadwriaeth fanwl a chyson, efallai y bydd modd adfer rhai o'r systemau ecolegol.

Os na wneir hyn, mae dyfodol y blaned gyfan mewn perygl.

Nac anghofied neb fod o leiaf yr un maint - os nad mwy - o ocsigen ag y dibynnir arno gan bopeth byw yn cael ei ollwng i'r awyr gan blancton y môr.

**Os bydd i'r môr farw - marw hefyd fydd y byd!**

# Rhaid anelu at boblogaeth gynaliadwy

**PARHAD O DUDALEN 6: gan Sion Jobbins**

Mae twf poblogaeth anferth yn cyfrannu at broblemau amgylcheddol, gwleidyddol ac, yn gynyddol, cyni bwyd byd-eang.

Mae strategaeth poblogaeth gynaliadwy ar y llaw arall yn mynd llaw yn llaw â chynyddu statws ac addysg merched, gwell iechyd ac economi.

Byddai lleihad yn y gyfradd geni yn arbed nifer o broblemau yn y tymor byr. Bydd hefyd yn lleihau'r galw am ragor o dir yn enwedig mewn ardaloedd eco-ffiniol fel y Sahel a'r Dwyrain Canol - yr union ardaloedd lle ceir y twf mwyaf.

Yn yr hirdymor, wrth gwrs, ein gobaith ni oll yw bod safon byw holl bobl y byd yn cynyddu ond gyda'r cynnydd hynny bydd cynnydd anochel yn lefel y llygredd.

Gan fod lleihau poblogaeth yn bur anymarferol (neu'n annynol) mae unrhyw strategaeth ecolegol yn gorfod gweithio o'r lefel boblogaeth y mae'n ei hetifeddu.

Po gynharaf, felly, mae modd cyrraedd poblogaeth gynaliadwy o 2.1 plentyn (yn y Gorllewin Datblygedig hefyd) yna'r hawsaf fydd hi i ddelio â newidiadau amgylcheddol.

Ond, onid yw'n bryd i ni fynd i'r afael o ddifri ac yn onest â demograffeg a'r gyfradd geni?

Gyda phoblogaeth Tsieina'n cynyddu gan 'Gymru', 3 miliwn person, pob pedwar mis (a hynny wedi'r polisi enwog un plentyn) yna bydd angen i ni brynu llawer iawn o fylbiau adnewyddol er mwyn lleihau effeithiau gordwymo'r atmosffer.

I nifer o bobl mae methiant cynyddol y mudiad gwyrdd ac elusennol, ein gwleidyddion a'n cynhyrchwyr teledu i drafod demograffeg yn codi marc cwestiwn ar yr holl drafodaeth amgylcheddol.

Wedi'r cyfan, dyw'r ffaith fod safiad yn amlwg ddim yn golygu ei fod yn anghywir - mae'n anodd gweld sut gellir cael amgylchedd cynaliadwy heb boblogaeth gynaliadwy.

► Dolenni: <u>Kenya: www.iht.com / articles/2008/01/17/opinion/edheinsohn.php</u>
<u>http://demographymatters.blogspot.com</u>

LLAI O WAITH — A MWY O HAMDDEN! ...

# Pobl 'gyntefig' - oes gyda nhw bethau i'w dysgu i ni am sut i fyw bywydau bodlon?




**Gan DR CHARLOTTE A. DAVIES**

**Uwch Ddarlithydd yn Adran Gymdeithaseg ac Anthropolog, Prifysgol Abertawe, a chyd-gyhoeddwr Y Papur Gwyrdd**


**Rydyn ni, sef pobl gwledydd cyfoethog y Gorllewin, yn defnyddio mwy na'n siâr o adnoddau'r ddaear.**

Mae'n amlwg bod rhaid i ni dorri ar y defnydd hwn er mwyn gadael byd sy'n gallu cynnal ein plant a phlant ein plant.

Ond yn amlach na pheidio, pryd mae sôn am newid ein ffordd o fyw i fod yn fwy cynaliadwy, daw'r ymateb nad ydyn ni eisiau mynd nôl i fyw mewn pebyll (neu ogofau!).

Yn cuddio y tu ôl i'r ymateb hwn y mae meddylfryd sy'n cymryd bod ffyrdd o fyw pobloedd eraill - megis helwyr a chasglwyr neu arddwriaethwyr syml - yn gyntefig ac israddol i gymharu â'n bywydau moethus ni.

Ond mae anthropolegwyr sydd wedi astudio cymdeithasau a'u diwylliannau gwahanol ledled y byd wedi herio'r syniadau hyn ers degawdau.

Yn ei lyfr ar economïau'r cymdeithasau hyn, *Stone Age Economics*, a gyhoeddwyd ym 1972, dadleuodd yr anthropolegydd Marshall Sahlins mai helwyr a chasglwyr oedd yr *'affluent society'* wreiddiol.

Wrth iddo edrych ar ddarganfyddiadau anthropolegwyr am ffordd o fyw pobloedd o'r !Kung yn yr Anialwch Kalahari i'r Yahgan yn Tièrra del Fuego, sylweddolodd fod y ddelwedd gyffredin ohonynt fel pobl sy'n byw ar yr ymyl, gan orfod ymdrechu'n galed o hyd jyst i gael lloches a digon i fwyta, yn gamarweiniol.

I'r gwrthwyneb, mae bron pob adroddiad o'u bywydau dyddiol yn dangos eu bod yn gweithio ar gyfartaledd am lawer llai o oriau pob dydd, gyda mwy o amser hamdden, na ninnau, a bod hyn yn ddewis ganddynt oherwydd eu bod yn gallu casglu digon am eu hanghenion heb ymdrechu'n ormodol.



**Dau wareiddiad gwahanol yn cwrdd — Indiaid brodorol America a choloneiddwyr Ewrop: pwy mewn gwirionedd oedd y mwya' 'cyntefig'?**

Dydy newyn ddim yn brofiad cyfarwydd iddynt chwaith. Pryd mae cynnyrch un ardal yn mynd yn brin, maent yn symud i ardal arall a chasglu math gwahanol o fwydydd.

Mae natur eu hanghenion – yn gymharol syml a chyfyngedig – yn allweddol i'w ffordd o fyw. Maent yn dangos ond ychydig o ddiddordeb mewn eiddo na bod yn berchen ar nwyddau.

Yn ôl Sahlins, ''does dim llawer o feddiannau gan bobl fwyaf cyntefig y byd, ond dydyn nhw ddim yn dlawd'. Mae tlodi'n cyrraedd gyda gwareiddiad ac yn ganlyniad i berthnasau cymdeithasol ac economaidd yn hytrach na diffyg adnoddau.

Wrth gwrs, mae'r ffordd hon o fyw yn dibynnu ar ddefnydd o diriogaeth eithaf helaeth a'r gallu i symud o gwmpas ynddo heb rwystrau. Mae sawl cymdeithas oedd yn byw trwy hela a chasglu, er enghraifft llwythau fel y Sioux a'r Cheyenne yn y Great Plains yng Ngogledd America, wedi dioddef wrth iddynt gael eu gwthio o'u hardaloedd brodorol.

Beth sy'n drawiadol oedd llwyddiant parhaol y cymdeithasau fel yr !Kung oedd yn digwydd byw mewn ardaloedd llai atyniadol i goloneiddwyr.

Ac mae tystiolaeth bod cymdeithasau sy wedi osgoi'r gwaethaf o ganlyniadau coloneiddio yn defnyddio'u hamser hamdden mewn gweithgareddau megis crefftwriaeth a bywyd defodol sy'n eu cyfoethogi'n gymdeithasol ac ysbrydol.

Felly, er bod maint poblogaeth bresennol y ddaear yn golygu byddai'n amhosibl i lawer ohonom fabwysiadu bywyd helwyr a chasglwyr fel sail i fyw, bydden ni - yn ogystal â'r ddaear - yn elwa o fagu rhai o'u hagweddau ynglŷn ag eiddo wrth ystyried yn ddwys beth sydd wir angen arnom i fyw bywyd cyflawn.

Mae hyn yn cael ei bwysleisio gan sawl astudiaeth sy'n dangos bod ein ffordd foethus bresennol o fyw yn gadael llawer ohonom yn anhapus ac isel ein hysbryd.

Does dim cymaint i'w hofni – a llawer i'w dysgu – wrth 'fynd nôl i fyw mewn pebyll'. Fel dywedodd Sahlins, *'Rydym yn tueddu i ystyried helwyr a chasglwyr yn dlawd gan fod dim byd ganddynt; gwell, efallai, am y rheswm yna yw eu hystyried yn rhydd.'*

Os dymunwch wneud Pythocles yn gyfoethog, peidiwch ag ychwanegu at ei gyfoeth, ond tynnwch o'i ddymuniadau.
*Epicurus.*



# Daear-iadur Y Papur Gwyrdd



**Beth sy' 'mlaen yng Nghymru i warchod y byd?**

## PROTEST YN ERBYN SAFLE GLO BRIG GER MERTHYR

BYDD gwrthdystiad cyhoeddus yn cael ei gynnal ym Merthyr Tudful ar Sadwrn, Ebrill 5, i brotestio yn erbyn agor safle glo brig anferth Ffos y Frân – safle mwya gwledydd Prydain.

Bydd siaradwyr, beirdd, cerddorion ac eraill yn gwrthwynebu cloddio'r glo arbennig o frwnt a godir oddiyno fydd yn creu $CO_2$ i ychwanegu at gynhesu byd eang dros gyfnod o 17 mlynedd. Cafodd **Y Papur Gwyrdd** gadarnhad y bydd y Gymraeg yn cael lle amlwg yn y gweithgarwch.
Gellir cael mwy o wybodaeth am y digwyddiad trwy gysylltu â: mwforclimateaction@lists.riseup.net.

## CYMRAEG WERDD

GRWP Cymraeg arloesol Mudiad Trefi Trawsnewid Llandeilo yn cwrdd yn nhafarn yr Angel am 7.30 ar nos Iau, Ebrill 3. Gwybodaeth gan Rhiannon Rowley (Abaca Organics): rhiannon54@hotmail.co.uk.

**DAEAR-IADUR YPG**

**OS hoffech chi gael eitem yn y Ddaear-iadur, danfonwch nodyn am y digwyddiad at : ypapurgwyrdd1@btinternet.com neu ffoniwch 01792 798162**

**HYSBYSEBION**



I hysbysebu yn Y Papur Gwyrdd, ffoniwch 01792 798162 neu ebostiwch am fanylion at: ypapurgwyrdd1@btinternet.com

## CYFEILLION Y DDAEAR

CYFEILLION y Ddaear Cymru yn cynnal eu Cynhadledd Grwpiau Lleol Blynyddol yn Neuadd Gregynog ar benwythnos Mai 9-11. Mae angen bod yn aelod o grwp lleol Cyfeillion y Ddaear Cymru i fynychu, felly, os hoffech fod yno, cysylltwch â chydlynydd y grwpiau lleol Bleddyn Lake sef Bleddyn.lake@foe.co.uk neu ffoniwch 02920 229577.

## MONTY DON YNG NGHILIAU AERON

CYFFRO yng Ngwesty Tŷ Glyn, Ciliau Aeron, ar nos Fawrth, Ebrill 8, am 7 o'r gloch. Bydd y garddwr cyfryngol Monty Don yno i annerch ar bwnc Pwysigrwydd Ail Afael Mewn Cynhyrchu Bwydydd Lleol.
Trefnir gan fudiad Trefi Trawsnewid Llanbedr Pont Steffan.

## SYLFAENYDD I ANNERCH

NOSON fawr i'r mudiadau amgylcheddol wrth i sylfaenydd Trefi Trawsnewid, Rob Hopkins, annerch cyfarfod yn Llandeilo ar nos Fawrth, 29 Ebrill.
Manylion lleoliad ac ati gan Steve Brown: steve.TL2@btinternet.com neu 01550 777805.

## EWCH ATI - AR Y TRAETHAU

OS am helpu gyda'r gwaith *nitty gritty* o barchu'r Ddaear, croeso i chi ymuno â phrosiectau glanhau traethau Cadwch Gymru'n Daclus, e.e., Mai 4, Ogwr (Sir Ben-y-bont); Mai 17, Hobbs Point (Sir Benfro); Mai 19-23, Traeth Aberafan ... A chofiwch y Glanhau Mawr Cenedlaethol o Fehefin 23—30. Am fanylion: 02920 726962 neu www.cadwchgymrundaclus. Hysbys t6.

## CYNHADLEDD LLANDRINDOD

DATGBLYGIAD cyffroes i'r mudiad amgylcheddol yng Nghymru yw'r Gynhadledd Gymraeg sydd i'w chynnal yng Ngwesty'r Metropole, Llandrindod, ar Ebrill 14—15.

Bydd cyfieithu ar gael i'r Saesneg os oes angen, ond Cynhadledd Gymraeg fydd hon. Llongyfarchiadau i'r trefnwyr.

Am fanylion, gweler yr hysbyseb ar dudalen 11.

## CYFARFOD YN Y CANOLBARTH

BYDD cyfarfod cyhoeddus agored ar nos Wener, Mai 9, am 7.30yh yn y Drenewydd, Powys, ar Atebion i Newid Hinsawdd yng Nghymru.

Ymhlith y siaradwyr fydd Lembit Opik AS, Tony Juniper a Gordon James o Gyfeillion y Ddaear a Rhian Connick o Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched yng Nghymru.

**PRYNWCH YN LLEOL — NEU DANYSGRIFIWCH**

**Y PAPUR GWYRDD**

**Os nad ydy'r Papur Gwyrdd ar gael yn eich siop lyfrau lleol , croeso i chi danysgrifio trwy ddanfon llythyr gyda'ch manylion at:**

**217 VICARAGE ROAD, TREFORYS, ABERTAWE SA6 6DX**

**gan gynnwys siec at 'Y Papur Gwyrdd' am £6.00 am 6 rhifyn deufisol.**

**Am fwy o wybodaeth:**
**Ffôn — 01792 798162;**
**Ebost — ypapurgwyrdd1@btinternet.com;**
**Gwefan — www.ypapurgwyrdd.com**

# Pethau'n Poethi: Her Newid Hinsawdd
## *Climate Change: Yesterday, Today and Tomorrow*

**Cynhadledd ddeuddydd yng Ngwesty'r Metropole, Llandrindod 14-15 Ebrill 2008**

***Two day conference at the Metropole Hotel, Llandrindod 14-15 April 2008***

- **Ydy Cymru wedi deffro i her newid hinsawdd?**
- **Sut ydyn ni'n ymateb i'r her hon – yma yng Nghymru a thrwy'n gwaith dramor?**
- **Beth yw rôl y cyfryngau Cymreig?**
- **A oes angen gweithredu'n gynt, yn wahanol, yn fwy effeithiol?**
- **Beth yw'r rhwystrau – a sut mae eu goresgyn?**



- ***Has Wales woken to the challenge of climate change?***
- ***How are we going to respond to this challenge – here in Wales and through our work overseas?***
- ***What is the Welsh media's role?***
- ***Do we need to act sooner, differently, more effectively?***
- ***What are the obstacles – and how can we overcome them?***

Dyma rai o'r pynciau fydd dan sylw mewn cynhadledd bwysig a gynhelir ar Ebrill 14-15 2008.

Bydd y gynhadledd yn cynnwys darlithoedd gan Gymry sy'n gweithio mewn meysydd perthnasol ond bydd cyfle hefyd i bawb fynd i'r afael â'r pynciau hyn – i fynegi barn, i herio, i gynnig gweledigaeth a hefyd i gynnig awgrymiadau ymarferol ar gyfer gweithredu pellach.

Yn ystod un rhan o'r gynhadledd bydd cyfle i'r mynychwyr gynnig eu pynciau trafod eu hunain. Mae croeso i chi felly feddwl ymlaen llaw am agweddau penodol yr hoffech i'ch cyd-gynadleddwyr eu trafod.

Cynhelir y gynhadledd hon drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg gyda gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael o'r Gymraeg i'r Saesneg at ddefnydd cynadleddwyr di-Gymraeg.

*These are some of the topics to be highlighted at an important conference to be held on April 14-15 2008.*

*The conference will feature addresses by Welsh contributors working in relevant specialist areas, but will also provide opportunities for delegates to discuss these important issues – by airing their views, sharing their vision, challenging viewpoints and putting forward practical suggestions for further action.*

*One of the conference sessions will provide an opportunity for delegates to propose their own workshop discussion subjects. You are therefore invited to consider beforehand any issue you may wish to put forward for joint discussion by a delegate group.*

*This conference is to be held through the medium of Welsh, with a simultaneous translation service available for non-Welsh speakers.*

| Tâl cynadledda: | *Conference Fee:* |
|---|---|
| £ 90 – Dydd Llun tan Dydd Mawrth | *£ 90 – Monday until Tuesday* |
| £ 50 – Dydd Llun (gan gynnwys y swper) | *£ 50 – Monday (including dinner)* |
| £ 30 – Dydd Mawrth | *£ 30 – Tuesday* |

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â: *For further information contact:*

Awel Edwards, Cwmni Iaith, 95a Llys Bowen, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, LL17 0JE

Ffôn / *Tel.*: 01745 585 120 Ffacs / *Fax*: 01745 585 018 Ebost /email: awel.edwards@cwmni-iaith.com

Noddir y gynhadledd gan / *The conference is sponsored by*

Comisiwn Coedwigaeth Cymru Forestry Commission Wales

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru Environment Agency Wales

Y PAPUR GWYRDD YN MYNNU PARCH I'R DDAEAR

mantais

Bwrdd yr Iaith Gymraeg Welsh Language Board

S4/C

Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government

windpower





Mynnwch
gwsg
ym mynwes
natur

# Matresi Organig gan Abaca

01269 598491
info@abacaorganic.co.uk

